Enw'r Ysgol / *Name of School*

Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion (DPIA) / *Schools Data Protection Impact Assessment (DPIA) Policy*

(Fersiwn 1, Ebrill 2022 / *Version 1, April 2022)*

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae DPIA yn ddull strwythuredig o nodi'r risgiau preifatrwydd sy'n gysylltiedig â phrosesu data personol ac ar gyfer gweithredu rheolaethau priodol i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r polisi hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer asesiad ffurfiol i sicrhau bod prosesau a systemau newydd a gyflwynir yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cyfrinachedd, diogelu data a diogelwch.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

A DPIA is a structured approach to identifying the privacy risks associated with the processing of personal data and for implementing appropriate controls to manage those risks.

This policy lays the framework for a formal assessment to ensure that new processes and systems introduced meet legal obligations regarding confidentiality, data protection and security.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1 / *V1*	Ebrill 2022 / *April 2022*	Polisi newydd / *New policy.*	30/09/26

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:*	Ebrill 2025 / *April 2025*
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen: Templed polisi ar y fframwaith ar gyfer asesiad ffurfiol i sicrhau bod prosesau a systemau newydd a gyflwynir yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cyfrinachedd, diogelu data a diogelwch.

Document: *Policy template on the framework for a formal assessment to ensure that new processes and systems introduced meet legal obligations regarding confidentiality, data protection and security.*

Cyfrifoldeb: *Cyfrifoldeb llywodraethwyr yr ysgol a'r Pennaeth fel y Rheolydd Data yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod holl staff yr ysgol yn gweithredu ac yn cydymffurfio.*

Responsibility: *It is the responsibility of the school governors and Headteacher as the Data Controller to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with data protection legislation. It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all school staff.*

Cynnwys **Tudalen**

1. Datganiad Polisi 5
2. Sgôp 5
3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau 5
4. Diffiniadau 6
5. Cyfrifoldebau 7
   5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol 7
   5.2. Y Pennaeth (a/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol) 7
   5.3. Holl Staff yr Ysgol 7
   5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion 8
6. Beth yw Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)? 8
7. Diben Asesiadau Effaith Diogelu Data 9
8. Elfennau Allweddol Proses Asesiad Effaith Diogelu Data 10
9. Manteision Allweddol Asesiadau Effaith Diogelu Data 10
10. Adnabod yr angen am Asesiad Effaith Diogelu Data 10
11. Pa bryd y dylid ymgymryd ag Asesiadau Effaith Diogelu Data 11
12. Pwy ddylai ymgymryd ag Asesiad Effaith Diogelu Data 12
13. Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol 13
14. Asesu Effaith 13
15. Canlyniadau Asesiad Effaith Diogelu Data 14
16. Camau i'w cymryd yn dilyn Cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data 15
17. Adolygu'r Asesiad Effaith Diogelu Data 15
18. Ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) lle mae Risg Gweddilliol Uchel 16
19. Systemau neu Dechnoleg Etifeddol 16
20. Hyfforddiant Staff 17
21. Torri'r Polisi 17
22. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth 17
ATODIAD A- Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion 19
ATODIAD B - Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion (DPIA) - Rhestr Wirio'r Pennaeth 21

English Version **22**

1. Datganiad Polisi

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i ddiogelu data personol yn unol â gofynion *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018*.

Mae'r *UK GDPR* yn cynnwys rhwymedigaeth i gynnal Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) ar gyfer mathau o brosesu sy'n debygol o arwain at *risg uchel* i fuddiannau unigolion.

Mae'r polisi hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer asesiad ffurfiol i sicrhau bod prosesau a systemau newydd a gyflwynir yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cyfrinachedd, diogelu data a diogelwch.

Bydd yr ysgol yn cwblhau DPIAs, lle y bo'n briodol, i ddangos atebolrwydd a chydymffurfiaeth â'r *UK GDPR.*

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff yr ysgol, gan gynnwys gweithwyr dros dro, contractwyr, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr a sefydliadau partner sy'n cyflwyno prosesau neu systemau newydd sy'n debygol o gynnwys defnydd newydd neu newid yn sylweddol i'r ffordd y caiff data personol ei drin a'i brosesu.

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol pan fo digwyddiad sylweddol wedi digwydd mewn perthynas â phroses/system gyfredol neu lle mae prosesau presennol yn cael eu diwygio, megis ymgymryd â phrosesu cyfredol mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod proses DPIA ar waith a bod yr holl brosiectau, prosesau a systemau newydd (gan gynnwys meddalwedd a chaledwedd) sy'n cael eu cyflwyno, yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol o ran preifatrwydd, cyfrinachedd, diogelu data a diogelwch.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob math o ddata personol a gedwir gan yr ysgol.

Mae'r gyfraith yn mynnu bod yr ysgol yn ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion fel rhan o'r broses DPIA, ac er mwyn helpu i benderfynu a oes angen DPIA ai peidio.

3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol* y *Deyrnas Unedig* (*UK GDPR*) a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol ac ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion; Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion; Polisi Prosesu Data Ysgolion* ac *Cyfnodau Cadw Ysgolion.*

4. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Defnyddwyr data	Yn cynnwys gweithwyr sydd â'u gwaith yn ymwneud â data personol. Mae gan ddefnyddwyr data ddyletswydd i ddiogelu'r wybodaeth y maent yn ymdrin â hi drwy ddilyn polisïau diogelu data a diogelwch bob amser. Mae staff a gyflogir gan ysgolion yn ddefnyddwyr data.
Proseswyr data	Yn cynnwys unrhyw berson sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (heblaw am y sawl sy'n gyflogedig gan y rheolydd data). Gall proseswyr data gynnwys cyflenwyr sy'n ymdrin â data personol ar ran yr ysgol.
Gwrthrych y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, meddiannu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, dargadw, diwygio, addasu, altro, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, dileu gwybodaeth neu ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi.
Risg	Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial am ddifrod neu drallod. Nodweddir risg yn aml gan gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain.
Asesiad Risg	Adnabod a dadansoddi risgiau i amcanion busnes y sefydliad.
Tebygolrwydd	Pa mor debygol yw hi y bydd y risg yn digwydd - ansicrwydd, cyfle a thebygolrwydd.
Effaith	Beth yw canlyniadau'r risg pe bai'n digwydd. Ystyrir bod effaith naill ai'n cael effaith uniongyrchol neu effaith yn y dyfodol.
Rheoli	Mesur sy'n addasu risg.
Data genetig	Data personol sy'n ymwneud â nodweddion genetig a etifeddwyd neu a gaffaelwyd gan berson naturiol sy'n rhoi gwybodaeth unigryw am ffisioleg neu iechyd y person naturiol hwnnw ac sy'n deillio, yn benodol, o ddadansoddiad o sampl biolegol gan y person naturiol dan sylw.
Data biometrig	Data personol sy'n deillio o brosesu technegol penodol sy'n ymwneud â nodweddion corfforol, ffisiolegol neu ymddygiadol person naturiol, sy'n caniatáu neu'n cadarnhau adnabyddiaeth unigryw'r person naturiol hwnnw, megis delweddau wyneb neu ddata dactyloscopig. Mae adnabod olion bysedd yn enghraifft o ddata dactyloscopig.

Storio cwmwl	Mae storio cwmwl yn fodel cyfrifiadura cwmwl lle caiff data ei storio ar weinyddion o bell a gyrchir o'r rhyngrwyd, neu "gwmwl". Mae'n cael ei gynnal, ei weithredu a'i reoli gan ddarparwr gwasanaeth storio cwmwl ar weinyddion storio sy'n cael eu hadeiladu ar dechnegau rhithiol.
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Yr ICO yw corff annibynnol y DU (awdurdod goruchwylio) a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Rôl yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â chwynion ynghylch problemau, cael gafael ar wybodaeth bersonol gan sefydliad, neu os oes pryderon ynghylch sut mae sefydliad wedi ymdrin â gwybodaeth - os yw'r wybodaeth yn anghywir, wedi'i cholli neu ei datgelu i rywun arall. Adroddir am ddigwyddiadau diogelwch data sy'n risg uchel i unigolion i'r ICO.

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol

Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am:

- sicrhau bod y polisi hwn wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan yr ysgol;
- monitro cydymffurfiaeth ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol mewn perthynas â'r polisi hwn;
- sicrhau y gall yr ysgol ddangos tystiolaeth o gydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data.

5.2. Y Pennaeth (a/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)

Mae'r Pennaeth a/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod staff yr ysgol yn ymwybodol o'r broses DPIA ac yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi;
- cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wrth weithredu neu newid proses neu system, er mwyn penderfynu a oes angen DPIA ai peidio;
- adnabod rhanddeiliaid allweddol y mae angen ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses DPIA;
- sicrhau bod y broses DPIA yn cael ei hailystyried pe bai newid sylweddol i'r broses neu risg preifatrwydd sylweddol yn cael ei chodi;
- integreiddio canlyniadau'r DPIA i gynlluniau prosiect;
- cadw cofnod o holl DPIAs yr ysgol fel rhan o'r *Cofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA*);
- monitro perfformiad parhaus y DPIA;
- cadw cofnod o'r risgiau o fewn Cofrestr Risg;
- cyhoeddi DPIAs os yw'n briodol;
- sicrhau bod y DPIA yn cael ei storio'n ddiogel.

5.3. Holl Staff yr Ysgol

Mae staff a gyflogir neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cymorthyddion dosbarth a staff cymorth busnes, yn gyfrifol am:

- gydymffurfio â'r polisi hwn i sicrhau bod prosesu yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol os yw'n gweithredu neu'n newid proses neu system;
- gallu adnabod pryd y gallai fod angen DPIA a hysbysu'r Pennaeth;
- ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a ddarperir ynghylch DPIAs os yw hyn yn berthnasol i rôl y swydd.

5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- gynorthwyo'r Pennaeth i benderfynu a oes angen DPIA ai peidio wrth weithredu neu newid proses neu system;
- cynorthwyo'r Pennaeth i gwblhau *Rhestr Wirio Sgrinio DPIA*;
- cefnogi'r ysgol i gwblhau DPIA;
- rhoi cyngor ar ba fesurau a mesurau diogelu y gall yr ysgol eu cymryd i liniaru risgiau;
- cadarnhau bod y DPIA wedi'i gwblhau'n gywir;
- hwyluso'r broses o ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) lle mae risg weddilliol uchel;
- rhoi cyngor ar ganlyniad y DPIA ac a all y prosesu fynd yn ei flaen;
- rhoi cyngor i'r Pennaeth ynghylch cyhoeddi DPIAs;
- darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas ag adolygu DPIAs;
- darparu cyngor ac arweiniad sy'n ymwneud â mentrau neu systemau etifeddol;
- cadw cofnod o DPIAs ar ran pob ysgol;
- monitro perfformiad parhaus y DPIA, gan gynnwys pa mor dda y mae'r ysgol wedi gweithredu camau gweithredu wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r risgiau;
- sicrhau bod yr holl gytundebau prosesu data yn cynnwys y gofyniad i broseswyr data gynorthwyo'r ysgol i ddogfennu gweithgareddau prosesu ac i nodi unrhyw risgiau cysylltiedig;
- sicrhau y bydd y DPIA yn cysylltu ac yn cydymffurfio â phob un o'r Egwyddorion Diogelu Data;
- darparu hyfforddiant ar sut i gwblhau DPIAs i staff yr ysgol a fydd yn rhan o gwblhau DPIAs.

6. Beth yw Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)?

Mae DPIA yn ddull strwythuredig o nodi risgiau diogelu data sy'n gysylltiedig â phrosesu data personol; helpu'r ysgol i nodi a lleihau'r risgiau ac ar gyfer gweithredu rheolaethau priodol i'w rheoli. **Mae DPIA yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer prosesu sy'n debygol o fod yn *risg uchel*.**

Mae'r DPIA yn offeryn gwerthuso sydd wedi'i gynllunio i ddadansoddi, adnabod, lleihau a mynd i'r afael â risgiau diogelu data, preifatrwydd a diogelwch prosesu yn systematig ac yn gynhwysfawr. Mae DPIA yn asesu tebygolrwydd ac effaith cyfaddawd i gyfrinachedd, uniondeb a/neu argaeledd data personol.

Gall DPIA gwmpasu un gweithrediad prosesu neu grŵp o weithrediadau prosesu tebyg. Gall grŵp o reolwyr wneud DPIA ar y cyd.

Dylai DPIAs ystyried risgiau cydymffurfio, ond hefyd risgiau ehangach i hawliau a rhyddid unigolion, gan gynnwys y potensial ar gyfer unrhyw anfantais gymdeithasol neu economaidd sylweddol. Mae'r ffocws ar y *potensial* ar gyfer niwed – i unigolion neu i gymdeithas yn gyffredinol, boed yn gorfforol, yn faterol neu'n ansylweddol.

Bydd yr ysgol yn gwneud asesiad gwrthrychol o'r risgiau a bydd yn defnyddio *Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion* (ATODIAD A) i feddwl am debygolrwydd a difrifoldeb y risgiau. Mae'r *Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion* hefyd ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Dylid datblygu a gweithredu pob prosiect, rhaglen, proses, system wybodaeth newydd (gan gynnwys meddalwedd a chaledwedd) ac asedau gwybodaeth perthnasol eraill mewn modd diogel a strwythuredig a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a statudol. Rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelu data. Rhaid profi pob proses neu system newydd yn erbyn y gofynion hyn cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Er mwyn penderfynu a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i brosesau'r ysgol ac asedau gwybodaeth yn effeithio ar gyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data personol a/neu sensitif, bydd yr ysgol yn defnyddio'r DPIA i brofi yn erbyn y gofynion hyn.

Bydd DPIAs yn cael eu cynnwys ym mhrosesau a fframwaith rheoli risg yr ysgol. Mae gofynion y DPIA wedi'u cynnwys ym mhob polisi, proses a gweithdrefn berthnasol.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y canlyniad yn gallu dylanwadu ar gynlluniau'r ysgol. Mae DPIA yn cael ei gychwyn a'i gynnal drwy gydol y gwaith o ddatblygu a gweithredu prosiect, proses neu system.

7. Diben Asesiadau Effaith Diogelu Data

Diben y DPIA yw tynnu sylw at unrhyw risgiau preifatrwydd sy'n gysylltiedig â phrosiect neu broses a sicrhau bod y defnydd arfaethedig o ddata personol yn cael ei ddeall yn llawn.

Mae'r DPIA yn adrodd ac yn casglu manylion yr effeithiau posibl a adnabuwyd a'r atebion neu'r camau gweithredu a fydd yn lleihau'r effaith neu'n lliniaru'r risg. Mae'r *UK GDPR* yn ei gwneud yn ofynnol i lefel o asesiad gael ei chwblhau sy'n gymesur â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosesu.

Mae DPIAs wedi'u mandadu'n benodol gan *UK GDPR* i asesu'r risgiau i hawliau preifatrwydd a diogelu data gwrthrychau data sy'n deillio o weithgareddau prosesu'r ysgol.

Mae DPIAs yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer prosesu sy'n debygol o fod yn risg uchel. Gall DPIA effeithiol hefyd ddod â chydymffurfiaeth ehangach; buddion ariannol ac enw da; helpu i ddangos atebolrwydd ac adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltiad ag unigolion.

8. Elfennau Allweddol Proses Asesiad Effaith Diogelu Data

Dylai DPIA ddechrau'n gynnar ym mywyd prosiect, proses neu system, ***cyn*** i'r prosesu ddechrau, a rhedeg ochr yn ochr â'r broses gynllunio a datblygu.

Dylai DPIA gynnwys y camau hyn:

Cam 1: nodi'r angen am DPIA;
Cam 2: disgrifio'r prosesu;
Cam 3: ystyried ymgynghori;
Cam 4: asesu angenrheidrwydd a chymesuredd;
Cam 5: nodi ac asesu risgiau;
Cam 6: nodi mesurau i liniaru'r risgiau;
Cam 7: cymeradwyo a chofnodi canlyniadau.

Bydd yr ysgol yn graddio'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer DPIA i gyd-fynd â natur y broses.

9. Manteision Allweddol Asesiadau Effaith Diogelu Data

Mae manteision allweddol DPIAs yn cynnwys:

- cyflawni rhwymedigaethau statudol yr ysgol;
- cyfrannu at reoli risg yn effeithiol a chynyddu ymwybyddiaeth o breifatrwydd a diogelu data ar draws yr ysgol;
- rhoi hyder i unigolion bod yr ysgol yn cymryd camau i ddiogelu eu preifatrwydd, a gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae eu data personol yn cael ei ddefnyddio;
- gwella perthynas yr ysgol ag unigolion a gwella dealltwriaeth yr ysgol o anghenion, pryderon a disgwyliadau unigolion;
- dangos bod yr ysgol yn cymryd camau sy'n llai tebygol o fod yn ymwthiol o ran preifatrwydd ac sy'n cael effaith negyddol ar unigolion;
- sicrhau bod mentrau'n debygol o fod yn llwyddiannus oherwydd bod risgiau preifatrwydd yn cael eu nodi'n gynnar, gan ganiatáu i reolaethau gael eu cynllunio am lai o gost a llai o effaith ar gyflawni.

10. Adnabod yr angen am Asesiad Effaith Diogelu Data

Er mwyn penderfynu a oes angen DPIA, rhaid i'r ysgol nodi a yw data personol yn cael ei brosesu. Mae rhai enghreifftiau o wybodaeth o'r fath yn cynnwys:

- gwybodaeth sy'n gysylltiedig neu y gellir ei chysylltu ag unigolyn;
- dyddiad geni, man geni, hil, crefydd, pwysau, dangosyddion daearyddol; gwybodaeth cyflogaeth, meddygol, addysg ac ariannol;
- enw (e.e. enw llawn, enw cyn priodi, enw'r fam cyn priodi, neu enw arall);
- gwybodaeth am gyfeiriadau (e.e. cyfeiriad stryd neu e-bost);
- gwybodaeth sy'n adnabod eiddo sy'n eiddo personol (e.e. rhif cofrestru cerbydau);
- rhifau ffôn, rhifau ffôn symudol a rhifau personol;

- nodweddion personol, gan gynnwys lluniau (nodweddion wyneb neu nodweddion nodedig), olion bysedd, data biometrig (sgan retina, ac ati);
- rhif adnabod personol (e.e. Rhif Yswiriant Gwladol, rhif pasbort, trwydded gyrrwr, cyfrif ariannol neu rif credyd).

11. Pa bryd y dylid ymgymryd ag Asesiadau Effaith Diogelu Data

Mae'n orfodol ymgymryd â DPIA cyn dechrau unrhyw brosesu sy'n cynnwys data personol sy'n *debygol o arwain at risg uchel.* Mae hyn yn sicrhau bod risgiau preifatrwydd yn cael eu nodi a'u hystyried cyn iddynt gael eu rhoi ar waith yn y dyluniad a'u hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y cylch bywyd.

Defnyddir *Rhestr Wirio Sgrinio DPIA* fel cam rhagarweiniol i gynorthwyo'r ysgol i benderfynu pryd y mae angen DPIAs.

Nid yw'r gofyniad am DPIAs wedi'i gyfyngu i brosiectau ffurfiol. Gall risg i breifatrwydd unigolion godi mewn llawer o senarios neu fentrau.

Efallai y bydd angen DPIAs i wneud cynigion i ymgymryd â phrosesu data personol newydd neu lle caiff prosesau presennol eu diwygio, megis ymgymryd â phrosesu cyfredol mewn gwahanol ffyrdd.

Rhaid i bob proses neu brosiect newydd neu wedi'u newid yn sylweddol sy'n cynnwys data personol y bwriedir eu cyflwyno gydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelu data.

Bydd DPIA yn cael ei gynnal yng nghamau cynnar menter. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol ymgymryd â DPIA os yw'n bwriadu:

- defnyddio proffilio systematig a helaeth gydag effeithiau sylweddol;
- prosesu data categori arbennig neu drosedd (data sensitif) ar raddfa fawr; neu
- monitro lleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn systematig ar raddfa fawr.

Mae'r ICO hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol ymgymryd â DPIA os yw'n bwriadu:

- defnyddio technolegau newydd, arloesol;
- defnyddio proffilio neu ddata categori arbennig i benderfynu ar fynediad at wasanaethau;
- proffilio unigolion ar raddfa fawr;
- prosesu data biometrig (e.e. cydnabyddiaeth wyneb a ddefnyddir i ganiatáu mynediad i systemau);
- prosesu data genetig;
- paru data neu gyfuno setiau data o wahanol ffynonellau;
- casglu data personol o ffynhonnell heblaw'r unigolyn heb ddarparu:
    - hysbysiad preifatrwydd iddynt ('prosesu anweledig');
    - olrhain lleoliad neu ymddygiad unigolion;

- proffilio plant neu dargedu gwasanaethau marchnata neu ar-lein atynt; neu
- brosesu data a allai beryglu iechyd neu ddiogelwch corfforol yr unigolyn pe bai diogelwch yn cael ei dorri.

Mae enghreifftiau o senarios neu fentrau a allai fod angen DPIA yn cynnwys:

- cynnig i adeiladu system TG newydd ar gyfer storio neu gyrchu data personol;
- gweithredu technoleg gwyliadwriaeth mewn adeilad, megis system CCTV;
- defnyddio gwasanaeth cwmwl ar gyfer storio data;
- datblygu polisïau neu strategaethau sydd â goblygiadau preifatrwydd.

Bydd angen i'r Pennaeth ystyried a oes angen DPIA ar unrhyw brosesu a bydd yn ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Ymhlith y ffactorau i'w hystyried mae pryd bynnag y bydd y prosesu:

- yn cynnwys casglu gwybodaeth newydd am unigolion;
- yn defnyddio gwybodaeth am unigolion at ddiben nad yw'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer ar hyn o bryd, neu mewn ffordd nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd;
- yn golygu defnyddio technoleg newydd y gellid ystyried ei bod yn ymyrraeth preifatrwydd;
- arwain at wneud penderfyniadau, neu gymryd camau yn erbyn unigolion mewn ffyrdd a all gael effaith sylweddol arnynt;
- yn cynnwys gwybodaeth am unigolion o fath sy'n arbennig o debygol o godi pryderon neu ddisgwyliadau preifatrwydd fel unigolion sy'n agored i niwed.

Ystyrir bod plant yn agored i niwed o brosesu eu data personol gan y gallent fod yn llai abl i ddeall sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio, rhagweld sut y gallai hyn effeithio arnynt, a diogelu eu hunain rhag unrhyw ganlyniadau diangen.

Os oes ansicrwydd ynghylch a yw'n briodol cynnal DPIA ar gyfer prosiect, proses neu system benodol, dylai'r Pennaeth ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gael eglurhad a chyngor.

12. Pwy ddylai ymgymryd ag Asesiad Effaith Diogelu Data

Yr ysgol fel y rheolydd data sy'n gyfrifol yn y pen draw ac yn atebol am gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod DPIAs yn cael eu cynnal. Mae'n bwysig bod staff yn gallu nodi pryd y gallai fod angen DPIA a hysbysu'r Pennaeth.

Bydd y Pennaeth yn ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion fel rhan o'r broses DPIA, ac er mwyn helpu i benderfynu a oes angen DPIA ai peidio. Rhaid i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi cyngor a mewnbwn.

Dylai perchennog y broses gynnal DPIA a'i gynorthwyo gan y rhai sy'n ymwneud â'r broses fusnes sydd â'r wybodaeth gywir a dealltwriaeth gref o'r broses ei hun ynghyd â'r

Pennaeth a'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Gall hefyd fod yn briodol gofyn am gyngor neu gyngor cyfreithiol gan arbenigwyr annibynnol eraill megis arbenigwyr TG, lle bo hynny'n briodol.

Os yw'r ysgol yn defnyddio unrhyw broseswyr data, bydd yr ysgol yn gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth, cymorth a mewnbwn lle bo hynny'n briodol (ac os yw'n berthnasol). Bydd proseswyr data yn dogfennu eu gweithgareddau prosesu ac yn nodi unrhyw risgiau cysylltiedig. Bydd unrhyw gontractau gyda phroseswyr data yn nodi'r gofyniad i gynorthwyo. Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am y DPIA fel y rheolwr data.

13. Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol

Efallai y bydd angen ymgynghori fel rhan o'r DPIA. Gall ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol wasanaethu llawer o ddibenion drwy gydol y broses DPIA, megis:

- esbonio'r fenter i randdeiliaid;
- esbonio i randdeiliaid sut y bydd y broses DPIA yn cael ei defnyddio o fewn y fenter i reoli risgiau preifatrwydd;
- sefydlu arferion gwaith cyfredol y mae'r fenter yn anelu at eu diweddaru neu eu disodli;
- sefydlu sut y mae'r system neu'r broses newydd yn debygol o gael ei defnyddio'n ymarferol ac yn achos cyfleusterau pwrpas cyffredinol, eu diben tebygol;
- sefydlu pryderon preifatrwydd rhanddeiliaid;
- nodi awgrymiadau ar gyfer rheolaethau;
- esbonio'r rheolaethau a nodwyd i randdeiliaid.

Mae rhanddeiliaid allweddol yn debygol o gynnwys:

- unigolion sy'n deall y fenter o safbwynt technegol ac o ran prosesu data personol;
- unigolion a fydd yn defnyddio'r system neu'r broses newydd;
- unigolion y bydd eu data personol yn cael ei brosesu gan y system neu'r broses newydd;
- partneriaid cydweithredol;
- cyflenwyr system.

Lle y bo'n briodol, bydd yr ysgol yn ceisio ac yn dogfennu barn unigolion neu eu cynrychiolwyr ar y prosesu arfaethedig, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Os penderfynir nad yw hyn yn briodol, bydd cofnod o'r penderfyniad hwn, gydag esboniad clir, yn cael ei gofnodi fel rhan o'r DPIA.

Bydd yr ysgol hefyd yn dogfennu os yw penderfyniad y DPIA yn wahanol i farn unigolion, a bydd yn dogfennu'r rhesymau dros ddiystyru eu barn neu farn ymgyngoreion eraill.

14. Asesu Effaith

Bydd y DPIA yn ystyried yr effaith bosibl ar unigolion ac unrhyw niwed neu ddifrod a allai gael ei achosi drwy brosesu, gan gynnwys:

- anallu i arfer hawliau (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i hawliau preifatrwydd);
- anallu i gael mynediad at wasanaethau neu gyfleoedd;
- colli rheolaeth dros ddefnyddio data personol;
- gwahaniaethu;
- dwyn hunaniaeth neu dwyll;
- colled ariannol;
- niwed i enw da;
- niwed corfforol;
- colli cyfrinachedd;
- ail-adnabod neu ddad-adnabod data; neu
- unrhyw anfantais economaidd neu gymdeithasol sylweddol arall.

15. Canlyniadau Asesiad Effaith Diogelu Data

Bydd y DPIA yn rhoi manylion am ganlyniadau'r asesiad, gan gynnwys:

- disgrifiad o natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu;
- disgrifiad systematig o'r gweithrediadau prosesu a ragwelir a dibenion y prosesu, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, y buddiant cyfreithlon a ddilynir gan yr ysgol;
- asesiad o fesurau angenrheidiol a chymesuredd a chydymffurfiaeth y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â'r dibenion;
- asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid unigolion; a
- y mesurau a ragwelir i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys mesurau diogelu, mesurau diogelwch a mecanweithiau i sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu ac i ddangos cydymffurfiaeth, gan ystyried hawliau a buddiannau cyfreithlon gwrthrychau data a phersonau eraill dan sylw.

Bydd y DPIA yn:

- nodi goblygiadau diogelu data'r broses/system;
- ystyried effeithiau neu brosesu o safbwynt yr holl randdeiliaid;
- nodi ffyrdd y gellir osgoi effeithiau negyddol ar breifatrwydd;
- nodi ffyrdd o leihau effeithiau negyddol ar breifatrwydd;
- rhoi eglurder ynglŷn â'r angen busnes am brosesu lle na ellir osgoi effaith negyddol ar breifatrwydd.

Bydd y DPIA yn cofnodi:

- pa fesurau ychwanegol sydd wedi'u cynllunio;
- a yw pob risg wedi'i dileu, ei lleihau neu ei derbyn;
- lefel gyffredinol y 'risg weddilliol' ar ôl cymryd camau ychwanegol;
- a oes angen ymgynghori â'r ICO;
- ymatebion i farn gwrthrychau data ac unrhyw ymgyngoreion eraill, gan gynnwys y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Bydd y DPIA yn cysylltu â'r Egwyddorion Diogelu Data a bydd yr Egwyddorion Diogelu Data yn cael eu cymhwyso drwy gydol cylchoedd bywyd y broses:

1. Wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw;
2. Wedi'i gasglu at ddibenion penodedig, penodol a dilys;
3. Digonol, perthnasol a chyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol (lleihau data);
4. Cywir a, lle bo angen, yn cael ei ddiweddaru;
5. Wedi'i gadw am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig;
6. Wedi'i brosesu mewn modd priodol i gynnal diogelwch.

Bydd y DPIA yn nodi'n benodol sut mae'r ysgol yn cydymffurfio â phob un o'r Egwyddorion Diogelu Data o dan *UK GDPR* ac yn egluro'n glir y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu.

16. Camau i'w cymryd yn dilyn Cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod y DPIA yn cael ei storio'n ddiogel.

Bydd yr ysgol yn integreiddio canlyniadau'r DPIA i gynlluniau prosiect. Bydd pwyntiau gweithredu'n cael eu nodi a phwy sy'n gyfrifol am eu gweithredu.

Bydd yr ysgol yn monitro perfformiad parhaus y DPIA.

Nid oes rhaid i DPIA ddangos bod yr holl risgiau wedi'u dileu. Ond dylai helpu'r ysgol i'w dogfennu ac asesu a oes cyfiawnhad dros unrhyw risgiau sy'n weddill ai peidio.

Os bydd yr ysgol yn penderfynu derbyn risg uchel, naill ai am nad yw'n bosibl lliniaru neu oherwydd bod costau lliniaru yn rhy uchel, bydd yr ysgol yn ymgynghori â'r ICO cyn bwrw ymlaen â'r prosesu. Nid oes rhaid i'r ysgol ddileu pob risg bob amser. Gellir penderfynu bod rhai risgiau gweddilliol, a hyd yn oed risg uchel, yn dderbyniol o ystyried manteision prosesu a/neu anawsterau lliniaru.

Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r risgiau o fewn Cofrestr Risg. Bydd y Gofrestr Risg yn cofnodi, yn asesu ac yn monitro'r risgiau a nodwyd. Mae templed Cofrestr Risg ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Mae'n arfer da i'r ysgol gyhoeddi DPIAs. Os yw'r ysgol yn pryderu y gallai cyhoeddi ddatgelu gwybodaeth fasnachol sensitif, tanseilio diogelwch neu achosi risgiau i eraill, bydd yr ysgol yn ystyried dileu manylion sensitif os oes angen, neu gyhoeddi crynodeb.

Fel rhan o'r broses gymeradwyo, bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cynghori a yw'r prosesu'n cydymffurfio ac yn gallu mynd yn ei flaen. Bydd cyngor y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cael ei gofnodi yn y DPIA. Os nad yw'r ysgol yn dilyn cyngor y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, dylid cofnodi'r rhesymau ac mae angen i'r ysgol sicrhau y gall gyfiawnhau ei phenderfyniad.

17. Adolygu'r Asesiad Effaith Diogelu Data

Bydd gan yr ysgol broses ar waith i adolygu'r DPIAs yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Dylid monitro risgiau diogelu data a phreifatrwydd drwy gydol cylch rheoli'r broses a bydd y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith yn cael eu hadolygu. Dylid ystyried DPIA yn broses barhaus gydag adolygiadau rheolaidd yn seiliedig ar lefel y risg a natur y gweithgaredd prosesu.

Dylai'r Pennaeth sicrhau bod y broses DPIA yn cael ei hailystyried pe bai newid sylweddol i'r broses neu risg preifatrwydd sylweddol yn cael ei chodi.

Bydd angen ailadrodd y DPIA os bydd newid sylweddol i unrhyw un o'r canlynol mewn perthynas â phrosesu yr ymgymerir ag ef; cwmpas; cyd-destun; diben y prosesu a'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu.

Mae angen i DPIAs asesu unrhyw risgiau newydd os oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r rheswm pam mae'r ysgol yn prosesu data personol neu o ran faint o ddata a gesglir. Dylai newid allanol i gyd-destun ehangach y prosesu hefyd annog yr ysgol i adolygu'r DPIA.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi cyngor ac arweiniad mewn perthynas ag adolygu DPIAs.

18. Ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) lle mae Risg Gweddilliol Uchel

Os bydd canlyniadau'r DPIA yn dangos y byddai'r prosesu'n arwain at lefel uchel o risg weddilliol i unigolion na ellir eu lliniaru, mae'r gyfraith yn mynnu yr ymgynghorir â'r ICO *cyn* i unrhyw brosesu ddigwydd.

Nid yw'r ICO yn disgwyl y bydd pob DPIA yn cael ei anfon atynt, ond rhaid ymgynghori â'r ICO os yw'r DPIA yn nodi risgiau uchel ac na all yr ysgol gymryd camau i leihau'r risgiau hynny. Dylai'r Pennaeth ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion am gyngor a hwyluso'r broses hon.

Pan fydd ymgynghoriad yn dechrau, bydd yr ICO yn darparu cyngor ysgrifenedig o fewn 8 wythnos, er mewn achosion cymhleth, gellir ymestyn y cyfnod i uchafswm o 14 wythnos. Os caiff yr amser ymateb ei ymestyn, bydd yr ICO yn cyhoeddi hysbysiad o fewn mis i'r dyddiad y cyflwynwyd y DPIA ac yn esbonio ei resymau.

Bydd yr ICO yn rhoi barn ar y prosesu arfaethedig ac, os yw'n briodol, yn rhoi manylion am yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i wneud y prosesu'n dderbyniol o dan *UK GDPR*; cyhoeddi rhybudd ffurfiol i beidio â phrosesu'r data, neu wahardd y prosesu'n gyfan gwbl.

Ni all yr ysgol ddechrau'r prosesu nes bod yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau.

19. Systemau neu Dechnoleg Etifeddol

Nid yw'r ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob menter neu system etifeddol gael DPIA, ond maent yn arf defnyddiol i roi sicrwydd o gydymffurfiaeth diogelu data a gellir eu gweithredu os yw'n briodol.

Ar gyfer prosesau sydd eisoes wedi cael DPIA o dan *Ddeddf Diogelu Data 1998*, dim ond os bu newid sylweddol i natur, cwmpas, sail gyfreithlon, cyd-destun neu ddibenion y prosesu ers yr asesiad blaenorol o dan ddeddfwriaeth flaenorol y mae angen gwneud hynny.

Argymhellir bod DPIA yn cael ei gynnal lle nad yw gweithrediad prosesu wedi cael asesiad blaenorol a lle mae'r prosesu'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid pobl naturiol.

Bydd yr ysgol yn cofnodi rhesymau dros beidio â chynnal DPIA newydd lle bo hynny'n berthnasol fel y gall yr ysgol ddangos ei bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi cyngor ac arweiniad sy'n ymwneud â mentrau neu systemau etifeddol.

20. Hyfforddiant Staff

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu hyfforddiant ar sut i gwblhau DPIAs i staff ysgolion a fydd yn rhan o gwblhau DPIAs.

21. Torri'r Polisi

Gallai peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff yr ysgol arwain at ganlyniadau difrifol.

Gall hyn arwain at roi'r unigolion y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a'r ysgol mewn perygl.

Os bydd gweithiwr nad yw'n gyflogai yn torri'r polisi hwn, efallai y bydd eu contract yn cael ei derfynu ar unwaith.

22. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion bob tair blynedd, oni bai bod newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer, polisi neu ganllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r polisi gael ei ddiweddaru'n gynt.

Caiff y polisi hwn ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu a chaiff ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth Ysgolion a'r corff llywodraethu yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon am unrhyw beth a gynhwysir yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion heb betruso:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Mae rhagor o wybodaeth am Asesiadau Effaith Diogelu Data ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

ATODIAD A- Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion

TEBYGOLRWYDD									
	Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau	**>70%**	**Bron yn bendant**	**A**					
	Digwyddiad yn debygol o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau	**30-70%**	**Tebygol**	**B**					
	Mae'n bosibl y bydd y digwyddiad yn digwydd ar ryw amser	**10-30%**	**Posibl**	**C**					
	Digwyddiad yn annhebygol ond gall ddigwydd ar ryw amser	**1-10%**	**Annhebygol**	**D**					
	Anghyffredin yw'r digwyddiad a dim ond dan amgylchiadau eithriadol y gall ddigwydd	**<1%**	**Anghyffredin**	**E**					
					5	**4**	**3**	**2**	**1**
					Ansylweddol	**Mân**	**Cymedrol**	**Mawr**	**Trychinebus**
			Canlyniadau Diogelu Data		Effeithio nifer fach iawn o wrthrychau data.	Gall gynnwys nifer fach o wrthrychau data – dim data sensitif.	Gall gynnwys rhai gwrthrychau data neu ymwneud â data sensitif.	Gall effeithio nifer fawr o wrthrychau data. Mae camau adfer yn debygol o fod yn gymhleth a chymryd amser.	Effeithio nifer arwyddocaol o wrthrychau data. Mae camau adfer yn debygol o fod yn gymhleth a chymryd amser. Wedi'i olrhain ar lefel uwch ac yn gysylltiedig â gwybodaeth sensitif.
					EFFAITH				

Allwedd Difrifoldeb Risg

	Mân	Gall y Pennaeth reoli'r risg yn rhwydd
	Cymedrol	Gall y Pennaeth gyfyngu'r risg – efallai y bydd rhaid rhoi gwybod i'r Corff Llywodraethu
	Uchel	Ymyrraeth gan y Corff Llywodraethu Ysgol ac / neu ymglymiad Uwch Reolaeth y Gwasanaeth Dysgu
	Argyfyngus	Ymyrraeth arwyddocaol gan y Corff Llywodraethu Ysgol ac ymglymiad arwyddocaol gan Uwch Reolaeth y Gwasanaeth Dysgu

ATODIAD B

Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion (DPIA)

Rhestr Wirio'r Pennaeth

Rhif	Camau i'w Cymryd	A oes gan yr ysgol hyn ar waith (Oes/Nac Oes)/ Sylwadau/Dyddiadau etc.)
1	Mae'r fersiwn gyfredol o'r Asesiad Effaith Diogelu Data *Ysgolion (DPIA)* wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol gan Gorff Llywodraethu'r ysgol.	
2	Mae proses ar waith i fonitro cydymffurfiaeth yr ysgol â'r polisi hwn yn barhaus.	
3	Cysylltwyd â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wrth ystyried gweithredu neu newid proses neu system, er mwyn penderfynu a oes angen DPIA ai peidio- mae hyn ar gyfer unrhyw ap, system, rhaglen neu wasanaeth lle mae data personol yn cael ei brosesu. Cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion **cyn** prynu ac ar **ddechrau'r broses**.	
4	Cofnodir pob un o DPIAs yr ysgol ar *Gofnod Gweithgareddau Prosesu (ROPA*) yr ysgol ac mae'n cael ei ddiweddaru ac mae'n cynnwys unrhyw newidiadau/diwygiadau sy'n ymwneud â DPIAs.	
5	Cofnodir cofnod o'r holl risgiau a nodir o fewn DPIAs mewn Cofrestr Risg. Caiff risgiau eu monitro a chaiff y Gofrestr Risg ei diweddaru a'i chadw'n gyfredol.	
6	Mae'r holl DPIAs yn cael eu storio'n ddiogel ar system TG yr ysgol a gellir cael gafael arnynt yn hawdd pan fo angen.	
7	Adnabyddir rhanddeiliaid allweddol y mae angen ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses DPIA.	
8	Cyhoeddir DPIAs lle ystyrir bod hyn yn briodol.	
9	Mae perfformiad parhaus y DPIA yn cael ei fonitro.	